# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.02.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ann Williams, Elfed Williams (ar gyfer cais rhif 1) a'r Cynghorydd Huw Edwards ar gyfer ceisiadau rhifau 2 a 3)

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – LIFESTYLE EXPRESS, 21 FFORDD ELIDIR, MAESINCLA, CAERNARFON

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Lifestyle Express, 21 Ffordd Elidir, Maesincla, Caernarfon:** Y Mri Raja Shajanur (Deilydd y drwydded), S. Ahmed, Shadek Ali,

**Ar ran yr Heddlu:** Rhingyll Bill Coppack a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr John M. Evans a Mrs Roma D. Evans,

**Ar ran Cyngor Tref Caernarfon:** Y Cynghorydd Hywel Roberts

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Huw Edwards

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Lifestyle Express, 21 Ffordd Elidir, Maesincla, Caernarfon am drwydded eiddo i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 07.00 a 21.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 09.00 a 20.00 ar ddydd Sul. Mae oriau agor a chau arfaethedig y busnes yn cyfateb i'r oriau gwerthu alcohol.

Nododd i'r heddlu drafod y cais â'r ymgeisydd ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, pryd y cafwyd cytundeb yr ymgeisydd i dderbyn amodau ar y drwydded mewn perthynas â gosod a defnyddio system teledu cylch cyfyng. Nid oes gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais fel arall.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu na'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gyda sylwadau. 'Roedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr aelod lleol, Cyngor Tref Caernarfon a derbyniwyd gwrthwynebiadau hefyd gan rhai o'r preswylwyr cyfagos. Yn ogystal, derbyniwyd deiseb gydag enw a chyfeiriad chwe preswylydd cyfagos yn gwrthwynebu'r cais. Yn unol â chanllawiau perthnasol i Deddf Trwyddedu 2003, ni ellir ystyried deiseb fel ymatebion dilys i gais am drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd cynrychiolydd ar ran deilydd y drwydded ei fod angen y drwydded i werthu alcohol gan y byddai'n fodd o greu gwaith yn yr ardal. 'Roedd yn berchennog dwy siop arall cyffelyb, yn cyflogi pobl leol ac 'roedd ganddo'r profiad i werthu alcohol. Nid oedd siop arall cyfleus yn yr ardal ac oherwydd hynny 'roedd pobl yn gorfod teithio i fewn i'r dref i brynu alcohol a.y. 'Roedd yn fodlon â'r amodau yr argymhellir gan yr heddlu parthed gosod a defnyddio system teledu cylch cyfyng.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes tystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Cafwyd trafodaeth â deilydd y drwydded ac o ran yr oriau y gofynnir amdanynt, 'roedd o'r farn nad ydynt yn afresymol ond bod angen cynnwys ar y drwydded yr amodau yn ymwneud â theledu cylch cyfyng.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn ardal Maesincla, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack y cafwyd trafferthion gyda plant dan 18 oed ond 'roedd yn anodd profi ar hyn o bryd os y byddai gwerthu alcohol yn y siop yn debygol o ychwanegu at y broblem hon.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Mai'r prif wrthwynebiad oedd y bwriad i werthu alcohol ond nid oedd gwrthwynebiad i'r siop ei hun. 'Roedd y byw uwchben y siop ac wedi gorfod dioddef camddefnydd alcohol ers blynyddoedd.
- Byddai caniatau'r cais yn ychwanegu at yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn yr ardal.
- Bod problemau'n bodoli gyda plant dan 18 oed yn yfed yn hwyr y nos gyda'r sefyllfa waethaf ar benwythnosau ac yn bennaf ar ôl hanner nos.
- Bod problemau gydag ysbwriel ac yn enwedig gyda caniau diod yn cael eu gwaredu yn y gerddi

Nododd cynrychiolydd Cyngor Tref Caernarfon bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cais oherwydd y niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol a fyddai'n cael ei greu. 'Roedd y trigolion lleol yn pryderu'n fawr am oblygiadau'r cais. Cyfeiriodd at yr ymgyrch i gael system teledu cylch cyfyng yn yr ardal ac 'roedd hyn yn profi bod yna bryder yn lleol am y sefyllfa.

Hysbysodd yr aelod lleol ei fod yn gwrthwynebu'r cais ar sail ymddygiad gwrth-gymdeithasol a'r perygl o amharu ar y trigolion lleol. Nododd bod yr ardal hon yn un gweddol ddistaw sy'n cynnwys ystad tai cyngor a chartref henoed ac y byddai caniatau'r cais yn debygol o effeithio ar fwynderau'r trigolion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd cynrychiolydd ar ran deilydd y drwydded ei fod yn fodlon lleihau'r oriau i werthu alcohol sef o 9.00 ymlaen ac nid oes bwriad i agor y siop ar ddiwrnod Nadolig.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oes tystiolaeth ddigonol o broblemau sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu ac sy'n uniongyrchol berthnasol i'r eiddo fel bod modd cyfiawnhau peidio â rhoddi'r drwydded y gofynnir amdano. Nodwyd i'r ymgeisydd gytuno i amodau'r heddlu parthed teledu cylch cyfyng a'u bod yn fodlon diwygio'r oriau i werthu alcohol. Yn dilyn ystyried holl bryderon y trigolion a sylwadau'r heddlu, penderfynwyd caniatau'r cais gyda'r amodau a nodir isod.

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Lifestyle Express, 21 Ffordd Elidir, Maesincla, Caernarfon fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cyflenwi alcohol dan baragraff J rhwng 9.00 a 21.00, dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 9.00 a 20.00 ar ddydd Sul.**
**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff L rhwng 7.00 a 21.00, dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 9.00 a 20.00 ar ddydd Sul.**
**c) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff M o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**
**ch) Bod system teledu cylch cyfyng ddigidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro y man lle yr arddangosir yr alcohol a'r mynedfeydd cyhoeddus i mewn ac allan o'r eiddo.**
**d) Rhaid i oleuadau yn y lleoliad fod yn ddigon llachar ac o safon ddigonol fel y gellir adnabod pobl sydd tu fewn i'r eiddo ar y system teledu cylch cyfyng.**
**dd) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau o'r holl amseroedd mae aelodau o'r cyhoedd yn yr eiddo, am isafswm o 31 diwrnod.**
**e) Bydd delweddau'n cael eu rhoddi ar gais i'r heddlu neu'r awdurdod lleol ar amser gwneud y cais a bydd yr eiddo'n sicrhau bod ganddynt y meddalwedd priodol ar gael er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddant yn gallu cydymffurfio â'r amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr eiddo fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd yr adolygir y drwydded.**
**f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff wedi ei hyfforddi ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu'r swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
**ff) Bod arwyddion teledu cylch cyfyng yn cael eu gosod ym mannau cyhoeddus yr eiddo.**
**g) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau'n ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Y Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Yr Arolygydd Mal Roberts a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Mhemet Kabadayi (Deilydd y drwydded), Mr Euren Karapinaz a Mr David Farley (Cyfreithiwr)

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded eiddo Star Kebab, 323, Stryd Fawr, Bangor oherwydd parhad

problemau yn ymwneud yn bennaf â throsedd ac anhrefn yn yr eiddo a thor-amod cyson yn enwedig mewn perthynas ag oriau cau ar drwydded lluniaeth hwyr y nos yr eiddo.

Nododd i'r eiddo eisoes fod yn destun adolygiad gan yr heddlu yn Nhachwedd 2011 ac fe benderfynodd yr is-bwyllgor ganiatau adolygiad o'r drwydded ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr heddlu ar 12 Ionawr 2012. Penderfynodd yr is-bwyllgor yn Ionawr 2012 i gwtogi'r oriau agor a'r oriau gweithgareddau trwyddedig fel a ganlyn –
a) Sul/Iau – 23.00 tan 02.00
b) Gwener/Sadwrn – 23.00 tan 02.30

Yn ychwanegol i'r uchod, newidiwyd yr amodau mewn perthynas â chynnal a chadw system teledu cylch cyfyng ar yr eiddo ac ychwanegwyd amodau parthed presenoldeb goruchwylwyr drysau a chofrestr goruchwylwyr drysau. Apeliodd deilydd y drwydded yn erbyn penderfyniad yr is-bwyllgor a golygai hyn nad oedd yn bosibl gweithredu'r oriau newydd hyd nes y cafwyd penderfyniad y llys ar yr achos apêl. Ar ddiwrnod yr apêl ar 28 Awst 2012, hysbyswyd y llys bod deilydd y drwydded yn tynnu ei apêl yn ôl a olygai fod penderfyniad yr is-bwyllgor yn dod yn weithredol ar unwaith.

Tystiodd yr heddlu ar 15 a 16 Medi 2012 i'r eiddo fod yn agored tu hwnt i'w horiau trwyddedig ac fe reportiwyd y troseddau o dor-amod trwydded gan yr heddlu yn unol â gofynion Adran 136 Deddf Trwyddedu 2003. Ymddangosodd deilydd y drwydded gerbron Llys Ynadon Caernarfon ar 19 Tachwedd 2012, lle y llediodd yn euog i'r troseddau.

'Roedd cais yr heddlu'n ymhelaethu ar y troseddau penodol sy'n sail tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae 22 o ddigwyddiadau o drais ac anrhefn yn gysylltiedig â'r eiddo hwn erbyn hyn. Nodir bod yr eiddo'n gyfrifol am dros 80% o ddigwyddiadau treisgar mewn eiddo lluniaeth hwyr y nos ym Mangor. Digwyddodd rhai o'r digwyddiadau o drais ac anhrefn yn ystod penwythnos yn Rhagfyr 2012. 'Roedd deilydd y drwydded ar y pryd yn gweithredu'n unol ag ymestyniad oriau a ganiatawyd drwy Rybuddion Tros Dro a ganiatawyd gan yr is-bwyllgor ar 29 Tachwedd 2012. Cyflwynir tystiolaeth gan yr heddlu'n ogystal o ddiffyg cydymffurfiad â'r amodau trwydded o ddarparu goruchwylwyr drysau ar ôl 23.00 o ddydd Iau i ddydd Sul a chadw cofrestr cofnodi goruchwyliwr drws. Nodir achlysuron lle nad oedd cydymffurfiad â'r amodau hyn.

Nododd mai barn yr heddlu yw y dylai'r is-bwyllgor ddefnyddio'r grym a awdurdodir iddo i wahardd trwydded yr eiddo am gyfnod o dri mis, neu unrhyw gyfnod a ystyrir yn briodol gan yr is-bwyllgor. Byddai gwaharddiad penodol yn rhoddi cyfle i ddeilydd y drwydded roddi camau mewn lle i ddatrys y diffyg rheolaeth mae'r heddlu wedi ei dystio ar yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, rhoddodd y Rhingyll Bill Coppack fanylion am y digwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo ers adolygu'r drwydded yn Ionawr 2012. Mewn un ymosodiad cyffredin, 'roedd cwsmer yn eistedd ar stepen drws yr eiddo pan ddaeth cwsmer arall oddi ar y palmant a'i tharo ar ochr ei phen gan achosi poen a chlais. Trafodwyd y digwyddiad gyda staff yr eiddo a chanfuwyd nad oedd ganddynt lunio teledu cylch cyfyng ohono. Cyfeiriodd at ddigwyddiad arall ar 20 Ebrill 2012 pryd y bu i ddyn ifanc bwnio merch â'i ben tu mewn i'r eiddo gan achosi niwed difrifol i'w thrwyn. Galwyd yr heddlu i'r eiddo pryd y gofynnwyd am luniau teledu cylch cyfyng o'r digwyddiad ond methwyd â chwblhau'r cais am hynny hyd nes y byddai'r eiddo wedi cau gan eu bod yn rhy brysur. 'Roedd tri cwsmer yn y siop pan wnaed y cais gyda tri aelod o staff yn gweithio ar y pryd. Gan bod hwn yn ddydd Gwener, ni fyddai'r siop wedi gorfod cau tan 03.00, sef oddeutu awr a hanner can munud yn ddiweddarach. Ar yr un diwrnod, gwelodd teledu cylch cyfyng y Cyngor, ddyn ifanc yn piso ger drws yr eiddo. Mewn digwyddiad arall ar 16 Rhagfyr 2012, 'roedd dyn ifanc yn troi ar y staff drws ar ôl cael ei daflu allan o'r siop ac yn ceisio eu pwnio. Fe'i arestiwyd wrth i ail achos o anhrefn ddigwydd yno. Ar 22 Rhagfyr 2012, cafwyd mân ddigwyddiad ac anhrefn yn yr eiddo gyda dau ddyn ifanc yn derbyn rhybuddion adran 27. Y diwrnod canlynol cafwyd digwyddiad o anrhefn tu mewn a thu allan i'r eiddo gyda dau ddyn ifanc yn cwffio ac yn cael eu harestio.

Nododd y rhingyll y caniatwyd rhybuddion digwyddiadau tros dro yn yr eiddo ar benwythnosau yn Rhagfyr 2012 ac i dri o'r digwyddiadau uchod cymryd lle yn ystod cyfnodau'r rhybuddion hynny. Tynnodd sylw i'r heddlu wrthwynebu'r rhybuddion hyn gan eu bod yn bryderus y byddai anrhefn yn siwr o ddigwydd.

Ar 28 Awst 2012, daeth yr amod ychwanegol i rym a oedd yn nodi bod angen i'r eiddo gyflogi staff drws o 23.00 tan i'r siop gau ar ddyddiau Iau, Gwener a Sadwrn ac ar y Sul pan fyddai'n disgyn cyn Gŵyl y Banc. 'Roedd angen hefyd i'r eiddo gadw cofrestr o'r staff drws a gyflogid gan gynnwys yr amser dechrau a gorffen gweithio a'u rhif bathodyn SIA. Ers y dyddiad hwn, nid yw'r eiddo wedi cydymffurfio â'r amod hwn. Gellir gweld ar y gofrestr ei hun bod nifer o benwythnosau'n wag ac ar yr adegau lle ceir cofnodion, 'roedd yn amlwg bod y staff drws wedi dod ar ddyletswydd ymhell ar ôl 23.00.

Atgoffodd yr aelodau o'r amodau canlynol –
a) Bod nifer addas o fannau gwaredu ysbwriel yn cael eu darparu a bydd gan y rhain gaeadau i'w gorchuddio a byddant yn cael eu cadw'n lân.
b) Bydd strydoedd cyfagos yn cael eu monitro ar ôl 23.00 er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn taflu ysbwriel ar y strydoedd a/neu i eiddo trigolion nac yn achosi niwsans i drigolion.
c) Bydd cwsmeriaid yn cael eu hatal rhag bwyta ac yfed yn uniongyrchol tu allan i'r eiddo ar ôl 23.00.
ch) Bydd unrhyw bobl sy'n disgwyl am fwyd tu mewn neu tu allan i'r eiddo yn cael eu monitro gan aelod o staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion trwyddedu.

Trwy gyfrwng DVD, cyfeiriodd y rhingyll at y gwahanol ddigwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo tros gyfnod o amser.

Nododd bod yr eiddo yn un o wyth o faint tebyg ym Mangor a drwyddedwyd i ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Mae 22 o ddigwyddiadau o drais ac anhrefn yn gysylltiedig â'r eiddo hwn erbyn hyn ac mae'n gyfrifol am dros 80% o ddigwyddiadau treisgar mewn eiddo lluniaeth hwyr y nos ym Mangor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed digwyddiadau yn ystod rhan gyntaf o'r flwyddyn hon, hysbysodd y rhingyll y cafwyd digwyddiad tu allan i'r eiddo ar 13 Ionawr pryd yr arestiwyd dyn ifanc.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau uchod, nododd cyfreithiwr deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Na werthir alcohol yn yr eiddo ac felly nid oes digwyddiadau o feddwod yn deillio o'r eiddo.
- Iddo dderbyn gwybodaeth am rhai o dafarndai/clybiau yn y ddinas yn gwerthu alcohol yn rhad er mwyn hyrwyddo eu busnesion a bod rhai o fynychwyr y sefydliadau hynny wedyn yn dod i'r eiddo dan sylw ac yn creu helynt yno.
- Bod y staff drysau a gyflogir yn yr eiddo o gwmni cyfrifol.
- Mai rhai o'r amodau y cytunwyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2012 oedd bod yr eiddo'n gosod ac yn cynnal a chadw system teledu cylch cyfyng digidol; cyflogi goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a chadw cofrestr o bob goruchwyliwr drws a gyflogir i weithio'n yr eiddo. 'Roedd o'r farn bod deilydd y drwydded wedi cydymffurfio â'r amodau hynny. Apeliwyd yn erbyn y penderfyniad, ond yn Awst 2012, tynnwyd yr apêl yn ôl.
- Bod deilydd y drwydded yn rhedeg y busnes ers oddeutu 14 blynedd ac yn berson profiadol ac yn gallu ymdrin â sefyllfaoedd anodd. Byddai gwahardd y drwydded am gyfnod yn debygol o effeithio ar ei fusnes,
- Nid yw'n fwriad gan ddeilydd y drwydded i achosi unrhyw niwsans tu fewn na thu allan i'r eiddo.
- Bod pobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo i fwyta bwyd neu i ddisgwyl am dacsi ac 'roedd hynny'n creu problemau ar adegau.
- Y bwriedir cyflwyno cais am wyro'r drwydded er caniatau i'r eiddo agor am awr ychwanegol.
- Er y cafwyd tri digwyddiad yn ystod penwythnos yn Rhagfyr 2012 pan ganiatawyd ymestyn yr oriau drwy Rybuddion Digwyddiadau Tros Dro, 'roedd natur y rhain yn weddol fychan.

Nododd yr aelod lleol bod trigolion yn byw gerllaw'r eiddo ac iddo sylwi ar un noson yn Rhagfyr 2012 yr awyrgylch ymosodol o amgylch yr eiddo. Tynnodd sylw hefyd at weddillion bwyd ac ysbwriel a adewir tu allan i'r eiddo. 'Roedd yn cefnogi cais yr heddlu.

Wrth grynhoi nododd y Rhingyll Coppack ymhellach y dylai deilydd y drwydded roddi mwy o sylw i achosion o drosedd ac anhrefn. Pan ganiatawyd y Rhybuddion Digwyddiadau Tros Dro yn Rhagfyr 2012 fe dorrwyd yr amodau ar sawl achlysur. 'Roedd o'r farn, efallai y byddai gwahardd y drwydded am dri mis yn ormodol ac y byddai ei wahardd am bythefnos yn fwy derbyniol a phan yr ail-agorir yr eiddo y dylid cael polisi rheolaeth a diogelwch mewn lle wedi ei gytuno gan yr heddlu a'r awdurdod lleol.

Nododd cyfreithiwr deilydd y drwydded wrth grynhoi, y byddai gwahardd y drwydded yn effeithio ar barhad y busnes. Cydnabu y dylid cymryd camau i sicrhau na fydd gormod o bobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, 'roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y digwyddiadau yn 2012 yn ddigon difrifol o ran nifer, amledd a'u natur i danseilio'r amcanion trwyddedu. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rhoddwyd ystyriaeth neilltuol i'r materion canlynol –

a) Ers yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog yn Ionawr 2012, dim ond pump digwyddiad o gwffio neu anhrefn a gymerodd le ac ‘roedd tri o’r rhain yn ystod cyfnod prysur y Nadolig ac nid oeddynt yn ffurfio patrwm cyffredinol a rheolaidd.
b) Yr amgylchiadau tu ôl i’r eiddo yn agor tu allan i’r oriau trwyddedig ar 15 a 16 Medi 2012.
c) Ni dderbyniwyd cwynion uniongyrchol gan drigolion lleol.
ch) Ni ystyrir bod gwahardd y drwydded yn ymateb rhesymol i’r digwyddiadau a fu yn 2012 ac ‘roedd amheuaeth beth fyddai gwahardd y drwydded yn ei gyflawni.
d) Bod yr heddlu wedi drysu torri’r gyfraith ar un neu ddau achlysur gyda thanseiliad o’r amcanion trwyddedu. Nid yw’n dilyn bod un bob tro yn arwain at y llall.
dd) Yr annogir yr heddlu a deilydd y drwydded i gynnal deialog gyda’i gilydd ar y mater er mwyn ceisio datrys unrhyw broblemau, yn enwedig mewn perthynas â’r tyrfaoedd sy’n ymgynnull tu allan i’r eiddo.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais am adolygiad.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu’r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o’u hawl i apelio i’r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**3. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – CADWALADERS ICE CREAM CAFE, STRYD Y CASTELL, CRICCIETH**

**<u>Eraill a wahoddwyd i’r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Cadwaladers Ice Cream Cafe, Stryd y Castell, Criccieth:** Ms Jenny Fry (Ymgynghorydd Trwyddedu yn gweithredu ar ran y cwmni)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Peter Harlech Jones

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Cadwaladers Ice Cream Cafe, Stryd y Castell, Criccieth i wyro’r drwydded eiddo i ganiatau gwerthu alcohol ar yr eiddo rhwng 10.00 a 21.30, saith diwrnod yr wythnos. Nid oes cais i newid yr oriau mae’r eiddo’n agored i’r cyhoedd sef rhwng 10.00 a 22.00 yn ddyddiol. Nodir yn y cais bod yr eiddo’n masnachu’n gyffredinol fel caffi/siop coffi a bod y bwriad i werthu alcohol yn weithred ategol i’r prif ddefnydd yn unig, sef gwerthu bwyd a diod, ac mai’r bwriad yw cynnig coffi neu bwdin yn cynnwys gwirodlyn, gwirodydd, gwin a chwrw arbenigol.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd un llythyr gan breswylydd cyfagos yn gwrthwynebu’r cais. Nid oedd gwrthwynebiad i’r cais gan yr aelod lleol ac nid oedd sylwadau gan yr Uned Gwarchod y Cyhoedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor a’r ymgeisydd ofyn cwestiynau i’r Rheolwr Trwyddedu.

ii. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i’r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i’r sylwadau.

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Hysbysodd yr ymgynghorydd trwyddedu, sy'n gweithredu ar ran y cwmni, y cynhelir ers 2009, nosweithiau "jazz" yn yr eiddo ar nosweithiau Iau, rhwng 19.00 a 21.00. Ceisir ehangu'r dewisiadau ar y fwydlen drwy gynnig cwrw Cymreig a.y. gyda bwyd. 'Roedd perthynas dda rhyngddynt a'r trigolion lleol ac 'roeddynt yn denu llawer o gwsmeriaid. Yn ystod cyfnod prysuraf yr haf, mae'r eiddo'n agored tan 22.00 ac yn cau am 16.00 neu 18.00 ar adegau eraill o'r flwyddyn. Cydnabu bod parcio'n broblem tu allan i'r eiddo yn enwedig rhwng Pasg a'r Hydref pan fyddai'r gorchmynion parcio mewn grym. Cadarnhaodd nad oes unrhyw fwriad i droi'r eiddo yn far trwyddedig.

Manteisiodd y preswylydd lleol oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Ei fod yn byw drws nesaf i'r eiddo ac y byddai caniatau'r cais yn ychwanegu at y problemau sy'n bodoli eisoes parthed sŵn a cerbydau'n parcio tu allan i'r fynedfa i'w dŷ ac yn effeithio ar fwynderau'r trigolion cyfagos. Nododd bod faniau'r cwmni'n parcio tu allan i'w dŷ ar adegau ac yn creu trafferthion iddo.
- Bod ysbwriel a gweddillion sigarenau yn cael ei taflu i'w ardd ffrynt.
- Bod plant ac weithiau oedolion yn tramwyo ar hyd y llwybr cul (alley) sydd rhwng ei eiddo a'r eiddo dan sylw gan ddefnyddio iaith anweddus ar adegau.
- Os y caniateir gwerthu alcohol yn yr eiddo, byddai'r math o gwsmeriaid yn newid ac y byddai hefyd yn gallu dylanwadu ar bobl ifanc a fyddai'n mynychu'r lle.
- Bod digon o eiddo trwyddedig yn bodoli yn y dref yn barod ac y byddai caniatau'r cais hwn yn newid natur y rhan hon o'r dref.

Mewn ymateb, hysbysodd yr ymgynghorydd trwyddedu, sy'n gweithredu ar ran y cwmni, bod y llwybr cul (alley) sydd rhwng yr eiddo a thŷ'r gwrthwynebydd yn eu perchenogaeth hwy, ond gellir gwneud trefniadau i'w gau.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Nid oedd yr aelodau'n derbyn bod yr eiddo ar hyn o bryd yn gweithredu mewn modd sy'n tanseilio'r amcanion trwyddedu nac yn derbyn bod rhoddi'r drwydded yn debygol o danseilio'r amcanion hynny. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rhoddwyd ystyriaeth neilltuol i'r materion canlynol –
a) Ni dderbyniwyd unrhyw fanylion am ddigwyddiadau penodol y gellid eu priodoli i'r eiddo sy'n niweidiol i'r amcanion trwyddedu.
b) O gofio natur yr eiddo a'r cwsmeriaid tebygol, mae'n anhebygol y byddai rhoddi'r drwydded yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.
c) Un gwrthwynebiad a dderbyniwyd ac ni chyflwynwyd unrhyw gais am adolygiad mewn perthynas â'r eiddo.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded eiddo Cadwaladers Ice Cream Cafe, Stryd y Castell, Criccieth fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cyflenwi alcohol dan baragraff J rhwng 10.00 a 21.30, dydd Llun i ddydd Sul.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 12.30am a daeth i ben am 5.50pm